

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cilfan i'r gogledd o Ferthyr
Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros
Dro) 2025

The A470 Trunk Road (Layby
north of Merthyr Tydfil)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) 2025

Gwnaed 28 Chwefror 2025

Made 28 February 2025

Yn dod i rym 10 Mawrth 2025

Coming into force 10 March 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan i'r gogledd o Ferthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mawrth 2025.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Layby north of Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 10 March 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used for the works associated with this Order;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:00 o'r gloch ar 10 Mawrth 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig Trunk Road;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:00 hours on 10 March 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o gilfan cerbyttffordd tua'r de cefnffordd yr A470, sy'n gyfagos i Gronfa Ddŵr Llwyn-onn, tua 775 o fetrau i'r de o'r fynedfa i Ganolfan Ymwelwyr Garwnant.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

28 Chwefror 2025

Tim Barnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the A470 trunk road southbound layby, adjacent to Llwyn-On Reservoir, approximately 775 metres south of the entrance to Garwnant Visitor Centre.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

28 February 2025

Tim Barnes
Transport
Welsh Government